



# GWYDDONIAETH BLWYDDYN 3-4 Cylched B – Uned 11

## Planhigion

Richard Watkins, GwE  
richardwatkins@gwegogledd.cymru  
@DrRWatkins

### YSTOD

#### **Cyd-ddibyniaeth organebau**

4. trwy waith maes, y planhigion a'r anifeiliaid sydd i'w gweld mewn dau amgylchedd cyferbyniol lleol
6. y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny, e.e. golau haul, argaeledd dŵr, tymheredd

### GEIRFA ALLWEDDOL

coesyn  
dail  
gwreiddiau  
gwres  
maetholion  
dŵr  
golau haul  
**tabl**  
**siart bar**  
**echelin**  
**rhicbren**  
**graddfa**  
**unedau**

### Datblygu sgiliau

#### meddwl

(Integreiddio Cynllunio-  
Datblygu-Myfyrio yn y  
gweithgareddau)



### FfLIRh – Prif linyddau Rhifedd\*

#### **Llinyn:**

*Datblygu ymresymu rhifyddol*

#### **Elfennau:**

*Adnabod prosesau a chysylltiadau*

*Cynrychioli a chyfathrebu*

*Adolygu*

#### **Llinyn:**

*Defnyddio sgiliau data*

#### **Elfennau:**

*Casglu a chofnodi data*

*Cyflwyno a dadansoddi data*

*Dehongli canlyniadau*

\* Cyfeirio at y Fframwaith Rhifedd am fanylion ynghylch y sgiliau penodol sydd o fewn pob elfen

### FfLIRh – cyfleoedd Llythrennedd (ysgrifennu)

**Elfen:** Trefnu syniadau a gwybodaeth  
Ysgrifennu'n gywir

Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth, rhoi  
cyfarwyddiadau a darganfod

### Datblygu TGCh



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r  
sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

### Y Cwricwlwm Cymreig



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i  
ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

### Addysg Bersonol a Chymdeithasol



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i  
ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

## Gwyddoniaeth – Cynlluniau Tymor Canolig (bob hanner tymor)

Grŵp Blwyddyn	<b>3/4</b>	Tymor	<b>Cylched B – Uned 11</b>	Teitl yr Uned	<b>Planhigion</b>
<p><b>Ystod: <i>Cyd-ddibyniaeth organebau</i></b>          4. trwy waith maes, y planhigion a'r anifeiliaid sydd i'w gweld mewn dau amgylchedd cyferbyniol lleol          6. y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny, e.e. golau haul, argaeledd dŵr, tymheredd.</p>					
<b>Cysylltiadau trawsgwricwlaidd:</b>					
Sgiliau (Prif sgiliau mewn llythrennau italig trwm)	Gweithgareddau posibl	Adnoddau a dolenni	Cyfleoedd i asesu		
<p><b><u>CYFATHREBU</u></b>  <i>Cyfathrebu'n glir ar lafar ac yn ysgrifenedig</i></p> <p><b><u>CYNLLUNIO</u></b>          Nodi bylchau mewn gwybodaeth flaenorol.           Cynllunio'r broses/dull a ddefnyddir.</p>	<p><b>1. Y Cwestiwn Mawr: Beth ydych yn ei wybod am blanhigion?</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig</b>          Adolygu gwybodaeth y plant am blanhigion fel pethau byw trwy holi cwestiynau e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa blanhigion allwch chi eu gweld trwy'r ffenestr?</li> <li>• A ydynt i gyd yn fyw?</li> <li>• Sut ydych chi'n gwybod?</li> <li>• Sut ydym yn helpu planhigion i dyfu'n dda?</li> <li>• Pam fod angen i ni gael planhigion sy'n tyfu'n dda?</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cofnodi syniadau'r disgyblion gan ddefnyddio strategaeth briodol. Ystyried creu llyfryn cwestiynau'r dosbarth, wal gwestiynau a/neu fwrdd datganiadau gwir/ gau lle caiff safbwyntiau'r disgyblion eu cofnodi'n anhysbys.</li> </ul>	<p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e13-plants-animals/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e13-plants-animals/index.html</a></p> <p><a href="http://www.echalk.co.uk/">http://www.echalk.co.uk/</a></p> <p>Datganiadau gwir-gau i'w didoli</p>	<p>Defnyddio'ch strategaeth/dull dewisedig</p> <p><i><b>A yw'r disgyblion yn gallu defnyddio syniadau bob dydd i esbonio/rhagfynegi? (Lefel 3)</b></i></p>		

<p><b>CYNLLUNIO</b> Rhagfynegi gan ddefnyddio syniadau a geirfa wyddonol</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Gwneud arsylwadau a mesuriadau gofalus</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> Penderfynu p'un a oedd y dull yn llwyddiannus</p>	<p><b>2. Y Cwestiwn Mawr: Pryd mae planhigyn yn rhywbeth heblaw planhigyn?</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Gwneud arsylwadau gofalus. Anifeiliaid a Phlanhigion: NGFL Gweithgareddau CA2</b></p> <p>Defnyddio gweithgareddau rhyngweithiol i gynhyrchu trafodaeth a dadl am gyfansoddiad 'planhigyn'</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A oes gan bob planhigyn ddail?</li> <li>• A oes gan bob planhigyn flodau? Hadau?</li> <li>• A allwn fwyta pob planhigyn?</li> <li>• A oes gan bob planhigyn wreiddiau a choesau?</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Gwneud arsylwadau gofalus</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Herio'r disgyblion i ragfynegi ffurf planhigion cyffredin a mwy anghyffredin trwy dynnu lluniau neu ar lafar. Dangos ffotograffau a thrafod syniadau'r disgyblion.</li> <li>• Archwilio'r planhigion, mesur a chofnodi manylion bach. Gosod y darganfyddiadau mewn tabl.</li> <li>• Didoli planhigion yn ôl eu nodweddion arsylwadwy. Defnyddio diagram Venn a/neu Carroll er mwyn didoli'n defnyddio meini prawf gwahanol.</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio</b> <b>Math testun: nodiadau/diagramau</b></p>	<p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e13-plants-animals/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e13-plants-animals/index.html</a></p> <p><a href="http://www.echalk.co.uk/">http://www.echalk.co.uk/</a></p> <p><a href="http://www.arkive.org/">http://www.arkive.org/</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dilyn cyfres syml o gyfarwyddiadau i ddod i gasgliadau a mesur yn defnyddio cyfarpar syml? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu gwneud arsylwadau ansoddol a defnyddio offer safonol i fesur? (Lefel 4)</i></p>
<p><b>CYNLLUNIO</b> <i>Cynllunio'r broses/dull a ddefnyddir.</i></p> <p><i>Defnyddio cyfarpar syml.</i></p> <p><b>DATBLYGU</b> Gwneud arsylwadau gofalus a mesuriadau cywir.</p> <p>Nodi, disgrifio a dechrau esbonio patrymau a pherthnasoedd.</p> <p><b>MYFYRIO</b> Awgrymu sut y gellid gwella'r dull a ddefnyddiwyd</p>	<p><b>3. Y Cwestiwn Mawr: Pa mor bwysig yw golau i blanhigion?</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cynllunio'r dull gweithio a ddefnyddir</b></p> <p>Dangos darn o laswellt wedi'i orchuddio neu blanhigyn sydd wedi bod yn y tywyllwch i'r disgyblion – gofyn iddynt ddisgrifio ac esbonio beth sydd wedi digwydd. Annog y plant i ddyfalu a holi cwestiynau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth fydd yn digwydd os byddwn yn dadorchuddio'r glaswellt?</li> <li>• A fyddai'r un peth yn digwydd i blanhigion eraill?</li> <li>• A fyddai'r planhigyn yn marw pe baem yn ei adael yn y tywyllwch am amser hir?</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Cynllunio'r dull gweithio a ddefnyddir</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno'r syniad o blanhigyn fel organeb lle mae angen i wahanol rannau <i>e.e. deilen, coesyn a gwreiddyn</i> weithio'n iawn os yw'r planhigyn am dyfu'n dda.</li> <li>• Cyflwyno planhigion tebyg o'r un rhywogaeth i'r plant <i>e.e. mynawyd y bugail</i> a gofyn iddynt awgrymu sut y gellid defnyddio'r rhain i ddarganfod a oes angen golau ar blanhigion i dyfu'n dda.</li> <li>• Y disgyblion i restru newidynnau allweddol sy'n effeithio ar dyfiant. Dangos templed cynllunio i'r dosbarth cyfan sy'n canolbwyntio ar ymchwilio i olau.</li> <li>• Trafod gyda'r plant beth maent am ei fesur a'i arsylwi <i>e.e. pellter o'r pridd i ben y blaguryr, lliw a nifer y dail</i>.</li> <li>• Dros gyfnod o sawl wythnos, helpu pob plentyn i fesur uchder y planhigion a chofnodi eu mesuriadau'n ofalus. Dangos y mesuriadau ar siart bar paratoedig yn y dosbarth neu ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth</b> <b>Math testun: adroddiad gwyddonol</b></p>	<p><a href="http://www.arkive.org/">http://www.arkive.org/</a></p> <p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/healthy_lifestyle/eng/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/healthy_lifestyle/eng/index.html</a></p> <p>Templedi cynllunio rhyngweithiol</p> <p>Potiau Pridd Silindrau mesur Tapiâu mesur Planhigion</p>	<p>A yw'r disgyblion yn gallu cynllunio'r dull gyda rhywfaint o gymorth? (Lefel 3)</p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu cynllunio gyda rhywfaint o annibyniaeth? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu defnyddio cyfarpar syml? (Lefel 3)</i></p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu gwneud penderfyniadau trwy bwysu a mesur y dystiolaeth? (Lefel 3)</p>

<p><b>CYNLLUNIO</b> Rhagfynegi'n defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Defnyddio cyfarpar ac offer yn ddiogel</i></p> <p>Cymharu a nodi tueddiadau</p> <p><b>MYFYRIO</b> Disgrifio a fu'r dull yn llwyddiannus</p>	<p><b>4. Cwestiwn: Sut ydym yn gwybod fod angen dŵr ar blanhigion i wneud iddynt dyfu?</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Dewis offer a thechnegau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dangos pen cyfan seleri i'r plant a gofyn iddynt edrych yn fanwl ar goesyn y planhigyn. Torri coes ar draws ac arsylwi ar y toriad. Gosod y coesau seleri ar i fyny mewn cynhwysydd o ddŵr bas wedi'i liwio ag inc neu liw bwyd coch.</li> <li>Gofyn i'r plant dynnu lluniau neu ffotograffau trwy ficrosgop digidol i ddangos yr hyn y maent yn ei weld ac esbonio beth y maent yn meddwl sydd wedi digwydd ar eu lluniau.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Dewis offer a thechnegau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio templedi cynllunio rhyngweithiol i ddangos cynllun dosbarth cyfan.</li> <li>Atgoffa'r plant fod angen dŵr ar blanhigion a gofyn iddynt a ydynt yn meddwl y byddant yn tyfu'n well po fwyaf o ddŵr y maent yn ei gael? Dangos eginblanhigyn wedi'i blannu i'r plant e.e. ffeuen a gofyn sut allent ddefnyddio hwn ac eginblanhigion eraill i ymchwili i'r cwestiwn. Helpu'r plant i benderfynu pa dystiolaeth i'w chasglu e.e. cael pedwar eginblanhigyn a rhoi dim dŵr, rhoi 5cm<sup>3</sup> o ddŵr, 20cm<sup>3</sup> o ddŵr neu 50cm<sup>3</sup> o ddŵr bob dydd neu bob dwy awr.</li> <li>Trafod beth i'w fesur, e.e. pellter o'r pridd i ben y ddeilen uchaf, a helpu'r plant i ddewis cyfarpar addas i fesur cyfaint y dŵr ac uchder y planhigyn.</li> <li>Creu ymchwiliad a chynllunio bod y disgyblion yn cofnodi cynnydd yn rheolaidd.</li> </ul>	<p>Templedi cynllunio rhyngweithiol</p> <p>Potiau Pridd Silindrau mesur Tapiau mesur Planhigion</p>	<p>A yw'r disgyblion yn gallu cynllunio gyda rhywfaint o annibyniaeth? (Lefel 3)</p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dilyn cyfres syml o gyfarwyddiadau i ddod i gasgliadau a mesur yn defnyddio cyfarpar syml? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu gwneud arsylwadau ansodol a defnyddio offer safonol i fesur? (Lefel 4)</i></p>
<p><b>CYNLLUNIO</b> <i>Rhagfynegi gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol</i></p> <p><i>Nodi meini prawf llwyddiant</i></p> <p><b>DATBLYGU</b> Defnyddio cyfarpar ac offer yn ddiogel</p> <p><b>MYFYRIO</b></p>	<p><b>5. Y Cwestiwn Mawr: A oes modd iddi fod yn rhy oer i hadau egino?</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Rhagfynegi a chynllunio'r dull</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu cwestiwn am hadau'n egino a thymheredd. Beth yw barn y disgyblion? Gofyn i'r dosbarth bleidleisio.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Rhagfynegi a chynllunio'r dull</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Helpu'r disgyblion i greu cwestiwn profadwy a chynllunio mewn grwpiau.</li> <li>Sut fydd y disgyblion yn cynnal y prawf? Un hambwrdd mewn oergell, un mewn ystafell gynnes. Beth am gadw newidynnau rheoli'n deg? h.y. bydd angen golau yn yr oergell neu ni fydd y prawf yn un teg.</li> <li>Neilltuo swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn grwpiau e.e. rheolwr mesur ac ati.</li> <li>Y disgyblion i ddewis cyfarpar syml a chynnal y prawf.</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth</b> <b>Math testun: adroddiad gwyddonol</b></p>	<p><a href="http://www.arkive.org/">http://www.arkive.org/</a></p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/">http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</a></p> <p>Templedi cynllunio rhyngweithiol</p> <p>Potiau Pridd Silindrau mesur Tapiau mesur Planhigion</p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu defnyddio syniadau bob dydd i esbonio / rhagfynegi? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu cytuno ar feini prawf llwyddiant syml? (Lefel 3)</i></p>
<p><b>CYNLLUNIO</b> Rhagfynegi'n defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Cymharu a nodi tueddiadau</i></p> <p>Ffurio safbwyntiau a ystyriwyd</p> <p><b>MYFYRIO</b> <i>Disgrifio a oedd y dull a ddefnyddiwyd yn un llwyddiannus</i></p>	<p><b>6. Y Cwestiwn Mawr: Beth mae'ch canfyddiadau yn ei ddweud wrthym?</b></p> <p>Adolygu cynnydd y 3 ymchwiliad blaenorol – beth mae'r canfyddiadau'n dechrau ei ddweud wrth y disgyblion am effaith golau a dŵr ar dyfiant planhigion? Trafodwch.</p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cymharu a nodi tueddiadau mewn data</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dod i gasgliadau a'u gosod mewn tabl. Helpu'r disgyblion i ddisgrifio unrhyw batrymau neu dueddiadau amlwg. Defnyddio templedi cynllunio rhyngweithiol fel cymorth.</li> <li>Dangos enghreifftiau o gasgliadau o'r canllaw gwyddoniaeth.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Gwneud cymariaethau a nodi tueddiadau mewn data</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Herio'r disgyblion i greu datganiadau syml i ddisgrifio eu casgliadau orau.</li> <li>Gofyn i grwpiau gyfnewid tablau/graffiau data ac asesu datganiadau grwpiau eraill.</li> </ul> <p>Gofyn i'r disgyblion fyfyrto am eu hymchwiliadau. Beth wnaeth eu gwaith yn 'wyddonol'? A yw'r disgyblion yn gallu rhestru rhai nodweddion syml sy'n creu ymchwiliad llwyddiannus?</p> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth</b> <b>Math testun: adroddiad gwyddonol</b></p>	<p>Templedi cynllunio rhyngweithiol</p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu nodi patrymau a thueddiadau syml? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu awgrymu sut y gellid gwella'r dull a ddefnyddiwyd? (Lefel 3)</i></p>

<p><b>CYNLLUNIO</b> Yr arsylwadau y mae angen eu gwneud</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Gwneud arsylwadau gofalus</i></p> <p><i>Cymharu a nodi tueddiadau</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> Disgrifio sut y maent wedi dysgu ac adnabod y dulliau a weithiodd orau.</p>	<p><b>7. Y Cwestiwn Mawr: Allwch chi ganfod unrhyw batrymau rhif mewn planhigion?</b></p> <p>Cyflwyno gweithgaredd Fibonacci NGfL CA2 (gyda nodiadau'r athro i gynorthwyo os oes angen). Casglu samplau o blanhigion â niferoedd gwahanol o betalau er mwyn eu cymharu fyddai orau.</p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cymharu a nodi tueddiadau mewn data</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno'r dasg a herio'r disgyblion i ddiolli a dosbarthu'r lluniau o blanhigion yn ôl niferoedd y petalau.</li> <li>Beth mae'r disgyblion yn ei sylwi?</li> <li>A oes unrhyw batrymau amlwg yn syth?</li> </ul> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cymharu a nodi tueddiadau mewn data</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod canfyddiadau mewn tablau o'r uchod.</li> <li>Helpu'r disgyblion i nodi'r niferoedd mwyaf amlwg o betalau – mae'r rhain yn ffurfio'r dilyniant Fibonacci: 1, 1, 2, 3, 5, 8, 13, 21 ac ati.</li> <li>Ystyried gofyn i'r disgyblion gyfleu eu darganfyddiadau trwy ddefnyddio cerdyn post gwyddonol ar gyfer ffrind a/neu gynhyrchu taflen 'gofalu am eich planhigyn tŷ' ar gyfer y ganolfan arddio leol.</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio</b> <b>Math testun: cerdyn post/pamffled</b></p>	<p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/fibonacci/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/fibonacci/index.html</a></p> <p>Amryw o wefannau a llyfrau ac ati.</p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu nodi patrymau a thueddiadau syml? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu trefnu eu casgliadau a'u harddangos mewn fformat penodol? (Lefel 3)</i></p>
<p><b>CYFATHREBU</b> <i>Cyfathrebu ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy dynnu lluniau.</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> Disgrifio sut y maent wedi dysgu ac adnabod y dulliau a weithiodd orau.</p>	<p><b>8. Y Cwestiwn Mawr: Allwch chi ganfod unrhyw batrymau rhif mewn planhigion? ...parhad.</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cyfathrebu ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy dynnu lluniau.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio gweithgaredd Fibonacci NGfL, ystyried creu gwaith celf wedi'i ysbrydoli gan Fibonacci, gan gynnwys troellau cregyn malwod neu nawtilws.</li> <li>Arddangos sut mae dilyniant Fibonacci yn creu troell.</li> </ul> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cyfathrebu ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy dynnu lluniau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Herio'r disgyblion i greu troell yn defnyddio papur sgwariau.</li> <li>Creu arddangosfa o waith Fibonacci'r dosbarth, gan greu cyswllt â mathemateg, gwyddoniaeth a chelf.</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio</b> <b>Math testun: cerdyn post/pamffled</b></p>	<p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/fibonacci/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/fibonacci/index.html</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu trefnu eu casgliadau a'u harddangos mewn fformat penodol? (Lefel 3)</i></p>
<p><b>MYFYRIO</b> <i>Disgrifio sut y maent wedi dysgu ac adnabod y dulliau a weithiodd orau.</i></p> <p>Creu cyswllt rhwng y dysgu â sefyllfaedd tebyg, yn yr ysgol a mannau eraill.</p>	<p>Ailedrych ar yr asesiad dechreuol. A yw'r disgyblion yn gallu dangos eu dealltwriaeth ar ddiwedd y testun a thrafod sgiliau newydd a ddysgwyd neu/ac a ymarferwyd?</p>	<p>Defnyddio strategaeth Asesu ar gyfer Dysgu dewisedig.</p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dweud beth oedd yn llwyddiannus a beth oedd ddim? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dweud sut y gallant wella eu dull(iau)? (Lefel 4)</i></p>
<p>Gwerthuso</p>			